Brenin Dafydd: 1000 cc

Telynor a ddaeth yn frenin

Cenfigen / dyfalbarhad / cyfeillgarwch

Dyn cas iawn oedd Saul. Roedd o'n ddyn cenfigennus. Roedd o yn awyddus iawn i Jonathan ei fab fod yn frenin ar ôl iddo ef farw. Ond roedd pawb yn awyddus i Dafydd, y telynor, ddod yn frenin. Mae'r stori hon yn sôn am Saul ac fel y bu'n gas tuag at Dafydd.

Ym mhalas y brenin Saul roedd Dafydd yn byw. Ef oedd wedi lladd y cawr Goliath. Roedd gan bawb yn y palas feddwl y byd o Dafydd. Byddai'n chwarae'r delyn i ddiddori pawb yn y palas. Yn y palas roedd gan Dafydd ffrind da. Jonathan, mab y brenin Saul, oedd hwn. Erbyn hyn roedd Dafydd yn enwog drwy'r wlad. Roedd yn ddyn dewr. Doedd y brenin Saul ddim yn hapus fod pawb yn hoffi Dafydd.

"Mae'n rhaid i mi wneud rhywbeth," meddai Saul. "Efallai rhyw ddydd y bydd hwn yn dod yn frenin yn fy lle. Mae gan Jonathan fy mab feddwl y byd ohono. Mae'n rhaid i mi gael gwared â Dafydd."

Pan oedd Dafydd yn chwarae ei delyn un diwrnod taflodd Saul waywffon tuag ato. Rhedodd Dafydd o'r palas am ei fywyd. Roedd Jonathan yn drist iawn fod Dafydd wedi gadael y palas. Aeth Jonathan i chwilio am Dafydd. Cafodd hyd iddo yn cuddio ar gwr y ddinas.

"Mae'n rhaid i ti fod yn ofalus iawn, Dafydd. Mae fy nhad yn genfigennus iawn. Mae o'n ceisio dy ladd," meddai Jonathan wrtho.

Un noson, gwnaeth y brenin Saul wledd fawr yn y palas. Edrychodd o'i gwmpas i weld a oedd Dafydd yn y wledd. Galwodd ar ei fab Jonathan a holodd, "Ble mae Dafydd heno?"

"Mae o wedi mynd i weld ei deulu," atebodd Jonathan.

Gwylltiodd Saul, "Pam wyt ti'n cadw ar Dafydd drwy'r amser? Rwyf eisiau dy weld ti yn dod yn frenin ar ôl i mi farw."

Aeth Jonathan yn syth o'r wledd i weld Dafydd.

"Paid byth â dod yn ôl i'r palas tra bydd fy nhad fyw. Mi fydd yn sicr o dy ladd."

Doedd Dafydd ddim yn gwybod ble i droi. Aeth i'r mynydd-dir. Yno bu'n byw yn yr ogofâu. Roedd y brenin Saul yn dal i chwilio amdano.

Un dydd daeth y brenin heibio'r ogofâu. Roedd wedi blino'n

arw erbyn hyn. Eisteddodd y tu allan i'r ogof lle roedd Dafydd yn byw. Gwelodd Dafydd fod y brenin wedi syrthio i gysgu. Daeth allan yn araf o'r ogof. Gyda'i gyllell torrodd ddarn o fantell y brenin. Cododd y brenin a dechrau cerdded. Roedd wedi dadflino erbyn hyn.

Gwaeddodd Dafydd ar ei ôl, "Pam wyt ti'n ceisio fy lladd? Fe ddois i yn agos iawn atat ti pan oeddet ti'n cysgu tu allan i'r ogof. Wnes i ddim drwg i ti."

Gwelodd y brenin fod Dafydd yn dal darn o'i fantell yn ei law. Roedd Dafydd wedi bod yn agos iawn ato. Doedd o ddim wedi gwneud niwed i'r brenin. Ond yn fuan iawn roedd y brenin wedi anghofio hyn.

Pan oedd Dafydd yn mynd am dro un diwrnod, rhedodd negesydd ato, "Wyt ti wedi clywed y newydd drwg?" meddai.

"Pa newydd drwg?" gofynnodd Dafydd.

"Mae'r brenin a'i fab Jonathan wedi'u lladd mewn brwydr yn erbyn y Philistiaid."

Roedd hwn yn ddiwrnod trist iawn i Dafydd. Roedd ei ffrind gorau wedi'i ladd. Ymhen dim cafodd Dafydd ei wneud yn frenin Israel. Am flynyddoedd bu Dafydd yn arwain ei bobl. Roedd pawb yn hoff ohono.

"...yr oedd Jonathan fab Saul wedi mynd yn hoff iawn o Ddafydd..."

1 Samuel 19:2

Diolch i Ti, O Dduw,
bod gen i ffrindiau da.
Gwna fi yn ffrind i bawb.
Amen.

Ydych chi'n credu y dylai rhywun fynd i'r eithaf dros ei ffrind?
Beth fuasech chi'n ei wneud dros eich ffrind gorau?

Brenin Dafydd: 1000 cc